# Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2019

## 12.00pm - 1:30pm yn Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

**Yn bresennol:** gweler y rhestr sydd wedi'i hatodi

**Croeso a chyflwyniadau:** Estynnodd Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd) groeso i bawb gan egluro y byddai'r cyfarfod cyffredin hefyd yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

**Busnes y cyfarfod blynyddol:**

**Adroddiad y Cadeirydd:** Dywedodd y Cadeirydd y bu'n flwyddyn lwyddiannus i'r Grŵp. Tynnodd sylw at yr hyn roedd y Grŵp wedi'i wneud i hybu teithio llesol i ysgolion ac i gynhyrchu Pecyn Cymorth drafft. Roedd yn falch iawn bod cynifer o Aelodau'r Cynulliad wedi manteisio ar gynnig y Grŵp i ddefnyddio e-feic, ac roedd y Prif Weinidog hyd yn oed wedi cymryd rhan yn y cynllun.

Diolchodd i Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, am ei waith yn sefydlu'r Grŵp a'r modd roedd wedi cydweithio â'r Grŵp ers iddo ddod yn Weinidog. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Ysgrifennydd am ei gymorth.

**Ethol Cadeirydd:** Cafodd Huw Irranca-Davies AC ei ailethol yn ddiwrthwynebiad.

**Ethol Ysgrifennydd:** Cafodd Chris Roberts ei ailethol yn ddiwrthwynebiad.

**Busnes y cyfarfod cyffredin:**

**Teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus:** Cyflwynodd y Cadeirydd Andrew Gainsbury a Matthew Gilbert o Drafnidiaeth Cymru a chafwyd cyflwyniad ar gefndir, ethos a chynlluniau'r cwmni ar gyfer integreiddio teithio llesol yn eu gwasanaethau. Soniwyd am y ffaith y bydd y cerbydau newydd sy'n cael eu cyflwyno'n gallu cludo beiciau, a bod cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod gorsafoedd yn fwy ystyriol o gerddwyr a beicwyr ac y byddai £1.4m yn cael ei wario i ddatblygu lleoedd i gadw beiciau a £500,000 yn cael ei wario ar wella llwybrau cerdded ger gorsafoedd. Byddai gan bob trên newydd leoedd pwrpasol i gadw beiciau. Yna estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i John Pockett o Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr i sôn am y diwydiant bysiau. Dywedodd John mai bysiau oedd y cludiant cyhoeddus mwyaf poblogaidd yng Nghymru; mae 4.5% o'r holl siwrneiau'n cael eu gwneud ar fws. Dywedodd fod bysiau eisoes yn integreiddio'n dda â cherddwyr, gan fod y rhan fwyaf yn cerdded i ddal bws ond roedd rhagor i'w wneud i'w hintegreiddio â beicwyr. Roedd yn credu y dylid creu lleoedd diogel i gadw beiciau yn y prif orsafoedd bysiau. Rhoddodd enghreifftiau hefyd o'r modd y caiff beiciau eu cludo ar fysiau. Galwodd am fwy o gyfathrebu rhwng beicwyr, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r cwmnïau bysiau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y materion a ganlyn:

Cludiant Cymunedol: Mae'n bosibl y byddai gweithredwyr cludiant cymunedol yn gallu darparu rheseli beiciau ar eu bysiau mini. Dylid eu cynnwys mewn unrhyw drafodaeth ar y pwnc.

Cynllunio lle i gludo beiciau ar drenau: Sicrhawyd y Grŵp na fyddai'n rhaid hongian beiciau ar fachau, tebyg i system amhoblogaidd GWR. Roedd y lleoedd ar gyfer cadeiriau olwyn yn awr yn cael eu cadw at y diben hwnnw'n unig, felly ni fydd modd eu defnyddio i gludo beiciau. Byddai trenau gwasanaeth Gerallt Gymro yn parhau i fod â fan y gard lle y gellid cadw beiciau. Gofynnwyd a fyddai modd cludo rhagor o feiciau ar yr holl wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau Llanelli. Nodwyd bod bwriad i gynyddu nifer y cerbydau ar bob trên felly byddai mod cludo rhagor o

feiciau. Byddai'n bosibl addasu'r cerbydau yn y dyfodol i fodloni'r galw am fwy o le i gludo beiciau. Byddai'n dal yn anodd gwneud lle i gludo beiciau ansafonol, fel beiciau y gellir eu haddasu, beiciau tair olwyn a thandemau.

Dyma faint o feiciau y byddai'r trenau newydd yn gallu eu cludo:

Trenau tram dosbarth 398 ar rheilffyrdd Merthyr, Aberdâr a Threherbert - 6 beic fesul uned, yn gweithredu fel trên 3- neu 6- cerbyd.

Trefnau Stadler Flirt Dosbarth 756 a Dosbarth 231 ar rheilffyrdd Rhymni, Bro Morgannwg, Glynebwy, Maesteg a Cheltenham - 6 neu 9 beic fesul uned, yn gweithredu fel trên 3- neu 4-cerbyd.

CAF Civity Dosbarth 197 ar rheilffyrdd Gogledd Cymru, Cambria, y Gororau a Gorllewin Cymru – 2 feic fesul 2 gerbyd, 4 beic fesul 3 cherbyd, yn gweithredu fel trên â 2-, 3-, 4- neu 5-cerbyd.

Neilltuo lle ar gyfer beic: Bydd ap newydd Trafnidiaeth Cymru yn caniatáu i feicwyr neilltuo lle i'w beic hyd at ddwy awr cyn gadael.

Caniatáu i'r gard benderfynu a oes lle i feiciau ychwanegol: Trafodwyd manteision ac anfanteision bod yn hyblyg er y gallai hynny greu ansicrwydd. Roedd Trafnidiaeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod lle i nifer benodol o feiciau, ac y dylid cadw at y nifer hwn, ond roedd yn "gydbwysedd anodd". Tanlinellwyd pwysigrwydd hyfforddi gardiau i arfer unrhyw ddisgresiwn sydd ganddynt.

Rheilffordd Calon Cymru: Trafodwyd y posibilrwydd o ddatblygu'r rheilffordd ar gyfer twristiaeth beicio. Byddai angen creu mwy o le i gludo beiciau a chynnig tocyn tebyg i docyn crwydro 'mynd fel y mynnoch'.

Cyfuno tocynnau a chynlluniau llogi beic: Ystyriwyd y byddai hyn yn gynllun da a fyddai'n arbed beicwyr rhag gorfod cludo beiciau ar drenau. Roedd gwaith ar y gweill i gyfuno system docynnau â chynlluniau fel Nextbike. Roedd y syniad o gyflwyno cynllun gwobrwyo am deithio'n llesol ar yr ap newydd yn cael ei ystyried hefyd.

Cyfleusterau yn y gorsafoedd: trafodwyd y posibilrwydd o greu caolfannau teithio llesol a fyddai'n rhoi gwybodaeth i gerddwyr a beicwyr a hefyd yn cynnig cyfleoedd masnachol i ddarparu lle i gadw beiciau a gwasanaethau cynnal a chadw. Roedd gosod arwyddbyst yn flaenoriaeth. Tanlinellwyd pwysigrwydd darparu lle diogel, o safon, i gadw beiciau.

Beiciau ar fysiau: Gofynnwyd a ellid darbwyllo gwasanaethau bysiau TrawsCymru Llywodraeth Cymru i gludo beiciau. Soniwyd am yrwyr bysiau a oedd wedi gwrthod cludo beicwyr a chanddynt feiciau'n plygu.

Diolchodd y Cadeirydd i Andrew, Matthew a John am eu cyflwyniadau gan ddweud bod y Grŵp yn awyddus i barhau i gael gwybodaeth am y pwnc.

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2019 yn gywir.

**Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod, a daeth â'r cyfarfod i ben.**

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| Russell | George | Aelod Cynulliad |
| Huw | Irranca-Davies | Aelod Cynulliad |
| Lee | Waters | Aelod Cynulliad |
| Ryland | Doyle | Yn cynrychioli Mike Hedges AC |
| Thomas | Pinder | Yn cynrychioli David Melding AC |
| Ken | Barker | Cycling UK |
| Duncan | Dollimore | Cycling UK |
| Sian | Donovan | Pedal Power |
| Richard | Evans | Hyfforddiant Beicio Cymru |
| Catherine | Floyd | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Andrew | Gainsbury | Trafnidiaeth Cymru |
| Matthew | Gilbert | Trafnidiaeth Cymru |
| Rhiannon | Hardiman | Living Streets |
| Hugh | Mackay | Cycling UK Bro Morgannwg |
| Craig | Mitchell | CLlLC |
| David | Naylor | Wheelwrights |
| John | Pockett | CPT |
| Mal | Reeves | Huw Irranca-Davies AC |
| Chris | Roberts | Ysgrifennydd CPGATA |
| Phil | Snaith | Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin |